



Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru

E-bulletin, Rhagfyr 2015



Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru

NEGES O NWDA

Mae swyddfeydd yn cau am **5pm 23rd**
Rhagfyr ac yn agor am **9am 4th Ionawr**
Dydd Llun. Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb!



Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru HYFFORDDIANT AM DDIM

Hanner Diwrnod o Hyfforddiant Cyfathrebu a Ymwybyddiaeth
Byddardod

Dydd Mawrth 19 Ionawr, 2016

Dewiswch sesiwn y bore neu brynhawn
09:30-12:30 neu 13:30-16:30

Lleoliad: FLVC, Corlan, Uned 3, Parc Busnes yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug
CH7 1XP

Sicrhawch bod eich sefydliad yn hygyrch i unrhyw un sydd â nam ar eu clyw. Profiad dysgu
pleserus, ymarferol ac effeithiol.

Yn agored i fudiadau gwirfoddol yn Sir y Fflint - 2 o leoedd fesul sesiwn bob sefydliad.

Lleoedd am ddim ond £10 am waith am beidio â mynychu (cynrychiolydd amnewid
dderbyniol).

I archebu eich lle anfonwch e-bost: info@deafassociation.co.uk
neu ffoniwch 01492 530013





easyfundraising.org.uk

Teimlo'n dda wrth siopa



Helpu pan fyddwch yn talu y nadolig hwn

Casglu rhoddion am ddim ar
gyfer **Cymdeithas y Byddar
Gogledd Cymru** gyda'ch holl
siopa nadolig ar-lein!



Ymuno easyfunding



Siopa ar-lein



**Codi rhoddion rhad ac
am ddim**



Ymunwch yma heddiw

www.support-nwda.co.uk

Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru E-fwletin Rhagfyr 2015

amazon.co.uk

John Lewis
johnlewis.com

ebay

Expedia.co.uk

Sainsbury's

YOUR M&S

Argos

Rhoi Organau Cymru

O 1 Rhagfyr 2015 ymlaen, bydd y ffordd rydym yn dewis dod yn rhoddwyr organau yn newid. Nawr yw'r amser inni ddeall beth mae hyn yn ei olygu a siarad amdano gyda'n hanwyliaid.

Cofrestrwch eich penderfyniad i roi organau.

Pam newid y system?

- Mae prinder mawr o organau ar gyfer trawsblaniadau yng Nghymru a ledled y DU.
- Yn 2012-13, bu farw 36 o bobl yng Nghymru tra'r oeddent yn aros am drawsblaniad.
- Mae Rhoi Organau yn beth prin. Mae llai nag un y cant o bobl Cymru yn marw mewn modd sy'n caniatáu iddynt allu rhoi eu horganau. Rheswm arall dros y prinder yw bod llawer o deuluoedd yn dweud Na i roi organau os nad ydynt yn gwybod a yw eu hanwyliaid am roi organau.
- Bydd y system newydd yn gliriach i bawb. Os cysylltir ag aelodau'r teulu ynghylch rhoi organau, byddant yn gwybod y gallai eu hanwyliaid fod wedi optio allan ond eu bod wedi dewis peidio â gwneud.

Am fwy o wybodaeth yn **laith Arwyddion Prydain**:

<https://www.youtube.com/watch?v=4ZfjkkvZFME>



Clust i wrando


Cynhadledd ar gyfer unigolion a theuluoedd y byddar yng ngogledd Cymru

10am - 3.30pm Dydd Sadwrn 16 Ebrill 2016
Neuadd Powis, Ffordd y Coleg, Bangor, LL57 2DG

Cynhadledd am ddim i oedolion a rhieni
plant sy'n dioddef o fyddardod.

Siaradwyr, trafodaethau a chyfle i
Gymdeithasu

Manylion pellach a chofrestru:
i.r.cooke@bangor.ac.uk (01248) 382255



Ymgyrch Sych Ionawr

Alcohol Concern Sych Ionawr yw ein hymgyrch flynyddol lle rydym yn herio pobl i roi'r gorau i yfed alcohol ar gyfer mis Ionawr.

Rydym am i chi fod yn gallu mynd i'r parti, capten y tîm cwis tafarn, ben oddi ar y penwythnos hir Ond rydym am i chi fod yn gallu ei wneud heb alcohol yn rhad ac am ddim!

Pan fydd pobl yn gofyn pam nad ydych yn yfed, gallwch ddod â nhw i mewn i'r her hefyd. Trowch i mewn i gystadleuaeth i weld pwy all godi'r mwyaf o arian ar gyfer eich Mis **Sych Ionawr**. All i'n esmwyth gael rhywfaint o godwyr arian yn mynd a hyd yn oed ofyn i'ch cydweithwyr a ffrindiau i ymuno mewn.

Am mwy o wybodaeth, cymryd rhan a chofrestru ar Mis **Sych Ionawr**. Lawrlwythwch eich canllaw am ddim i ymgyrch eleni ynghyd â syniadau codi arian a phosteri yma. Rydym ni hefyd ar Facebook yn www.facebook.com/DryJanuary neu ar Twitter @DryJanuary.



<https://www.alcoholconcern.org.uk/what-we-do/campaigns/dry-january>



Venue Cymru Bunting Activity for Locals

Hoffai Venue Cymru addurno'r mannau mewnol gyda chymaint ag sy'n bosibl o faneri wedi'u gwneud yn lleol mewn ffabrig, gwlân neu bapur ar gyfer gwyl Celf Pobl Ifanc Am Ddim eleni, Cymerwch Ran, ar 9 a 10 Ionawr 2016.

Gall y baneri gael ei gwnïo a'u gwneud o frethyn; eu gwau neu eu Crosio o wllân neu eu torri allan a'u gwneud o bapur. Y nod yw cael cymaint ag sy'n bosibl o bobl leol a grwpiau cymunedau lleol i gymryd rhan gymaint ag sy'n bosibl. Bydd diwrnodau ar gyfer rhoi'r baneri at ei gilydd, gyda lluniaeth, yn Venue Cymru ym mis Rhagfyr pan all pawb sy'n cymryd rhan ddod at ei gilydd i'w gael yn barod i gael ei roi yn ei le ar gyfer Cymerwch Ran, ddydd Sadwrn a dydd Sul 9 a 10 Ionawr.

Bydd rhywfaint o ffabrig a gwlân yn cael ei ddarparu. I gael rhagor o fanylion cysylltwch â ddymphna@hotmail.com neu dymphna.d'arcy@venuecymru.co.uk neu ffoniwch 01492 879771

Mae Venue Cymru yn cynnal cystadleuaeth a rhoi gwobrau i'r baneri mwyaf artistig, creadigol ac anarferol. Felly, bod yn greadigol ac yn defnyddio eich dychymyg cymaint â phosibl, a phwy a wŷr - fe allech chi fod yn enillydd lwcus!

Ymgeisio am grant: Canllaw i ddechreuwyr

TACHWEDD 13, 2015 by [biglotteryfundwales](http://biglotteryfundwales.com)

Do you Oes gennych chi syniad ar gyfer prosiect cymunedol? A fydd y prosiect yn gwella bywydau'r bobl mewn angen mwyaf yn eich cymuned? Os bydd, mae'n bosib y bydd modd i chi ymgeisio i'r **Gronfa Loteri Fawr** am grant i wireddu'ch syniad ar gyfer prosiect.



Fel arianwyr eraill, ni allwn roi grantiau i unigolion. I fod yn gymwys i ymgeisio am arian gennym ni, mae angen i chi fod yn fudiad nid er elw sydd wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig. Nid oes angen i chi fod yn elusen gofrestredig i ymgeisio, er enghraifft gallwch hefyd fod yn grŵp cymunedol neu wirfoddol, cwmni cyfyngedig trwy warant, ysgol, cyngor cymuned neu dref neu gorff ieuchyd. Cyn i chi ymgeisio bydd angen y canlynol arnoch:

Dogfen lywodraethu, megis cyfansoddiad – Mae'n rhaid i'r ddogfen hon amlinellu enw a diben eich mudiad. Dylai ymdrin hefyd â sut y bydd yn gweithio, gan gynnwys faint o bobl all ymuno; sut bydd eich pwyllgor yn gweithredu; pryd y byddwch yn cynnal cyfarfodydd; sut y caiff eich cyllid ei reoli a pholisi ar gyfer beth sy'n digwydd os yw'r mudiad yn cau (cymal diddymu). [Gellir dod o hyd i gyfansoddiad enghreifftiol ar wefan y Comisiwn Elusennau.](#)

Pwyllgor neu fwrdd – Dylai hyn gynnwys o leiaf tri aelod nad ydynt yn perthyn i'w gilydd nac yn byw yn yr un cyfeiriad.

Cyfrif banc y Deyrnas Unedig – Mae'n rhaid i'r cyfrif fod yn enw eich mudiad (fel y mae'n ymddangos ar y cyfansoddiad). Mae'n ofynnol i o leiaf dau o'r aelodau pwyllgor nad ydynt yn perthyn i'w gilydd gymeradwyo didynnu neu wario arian.

Cyfrifon Ariannol Blynnyddol – Os yw eich mudiad yn ei 12 mis cyntaf o weithredu, rhowch ragamcaniad i ni sy'n rhestru unrhyw wariant ac incwm disgwylidig (gan gynnwys unrhyw ariannu rydych yn ymgeisio amdano) yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'n rhaid i gyfrifon ddangos yn glir beth yw enw eich mudiad (fel y mae'n ymddangos ar y cyfansoddiad) a dangos dyddiadau dechrau a dod i ben y cyfnod 12 mis y maen nhw'n ymdrin ag ef (er enghraifft, 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016).

Dw i ddim yn siŵr sut i sefydlu mudiad. Ble gallaf ddod o hyd i gymorth?

Gall sefydlu'ch mudiad deimlo fel tasg hynod anodd i ddechrau, ond y newyddion da yw bod cyfoeth o wybodaeth a chefnogaeth ar gael i'ch helpu chi.

Mae [gwefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#) 'n ymdrin â'r rhan fwyaf o bethau y mae angen i chi eu gwybod am gychwyn grŵp gwirfoddol, gan gynnwys y mathau gwahanol o strwythurau sydd ar gael a'r hyn y gallai fod angen i chi ei ystyried wrth benderfynu p'un a ddylech gofrestru'ch mudiad fel elusen ai beidio. Os oes angen unrhyw gefnogaeth bellach arnoch, cysylltwch â'ch [cyngor gwirfoddol lleol](#).

Reit, mae hynny i gyd wedi'i drefnu. Beth nesaf?

Bwrw golwg ar ein [porwr ariannu](#) i gael gwybod pa raglen grantiau sydd fwyaf addas ar gyfer eich prosiect. Ein dwy brif raglen yw:

- [Arian i Bawb Cymru](#) sy'n cynnig grantiau rhwng £500 a £5,000 ar gyfer prosiectau sy'n para hyd at flwyddyn; a
- [Pawb a'i Le](#) sy'n darparu symiau rhwng £5,001 ac £1 miliwn ar gyfer prosiectau sy'n para hyd at 5 mlynedd.

Ein cyfrifoldeb ni yw ariannu prosiectau cymunedol sy'n helpu'r bobl mewn angen mwyaf. Os ydych eisiau arian ar gyfer prosiect chwaraeon, celfyddydau neu dreftadaeth, gwiriwch ein canllaw i gael gwybod p'un yw'r [corff ariannu loteri mwyaf addas](#) ar gyfer eich prosiect.

Felly pa fathau o brosiectau ydych chi eisoed wedi'u hariannu?

Rhai enghreifftiau gwych o brosiectau rydym wedi'u hariannu trwy Arian i Bawb Cymru yw prosiect [Hosbis Dewi Sant](#) i gefnogi cleifion yn ardal Conwy sy'n byw gyda chlefydau blinder, pryder ac anawsterau anadlu, a'r prosiect [Same but Different](#) a gododd ymwybyddiaeth o glefydau a syndromau anghyffredin trwy ddatblygu proffiliau ac astudiaethau achos ansawdd uchel o bobl sy'n byw gyda chyflyrau anghyffredin, a'u cyhoeddi ar y rhyngwyd.

Mae enghreifftiau o brosiectau mwy sylweddol a ariannwyd trwy Pawb a'i Le'n cynnwys prosiect Adeiladu Cymunedau [Down to Earth](#) sy'n gweld oedolion hŷn yn llythrennol yn adeiladu eu cyfleuster hyfforddiant cymunedol eu hunain, a phrosiect Cadwyn Môn [Age Cymru Gwynedd a Môn](#), sy'n darparu cyfeillach a chyfeillgarwch ar gyfer pobl dros 50 oed ym Môn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ymgeisio, cysylltwch â'n tîm cymorth ar 0300 123 0735 neu ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk. Maen nhw bob amser yn hapus i gael sgwrs ac i'ch rhoi chi ar y trywydd iawn.

**** BETH SY 'MLAEN ****

Mae'r wybodaeth ar gyfer dangosiadau gydag isdeitlau sydd a pherfformiadau BSL ond ar gael yn Saesneg ar y gweill. Gweler y fersiwn Saesneg ar ein e-fwletin.



Gwybodaeth gan Glybiau Byddar yng Ngogledd Cymru

Clwb Byddar Llandudno CYHOEDDIAD:

Rydym wedi cael gwybod bod "Clwb Byddar Llandudno" wedi newid ei enw. Byddwn yn dal i parhau fel aelodau o dan y teitl newydd o "Clwb Byddar Sir Conwy". Byddai'r Pwyllgor yn hoffi dweud diolch yn fawr am gefnogi "Llandudno Deaf Club" dros y 7 mlynedd diwethaf ac rydym yn gobeithio eich gweld i gyd yn y dyfodol.

Bore coffi Clwb Byddar Sir Conwy

Bob dydd Mawrth o 10yb tan 1yh yn y Swyddfa NWDA, Ffordd Conway, Bae Colwyn, LL29 7LN. Bydd Sarah wrth law os oes angen unrhyw help neu gefnogaeth o 10am tan 12 hanner dydd. £1 mynediad yn cynnwys lluniaeth gymaint ag y dymunwch. Dewch draw pan allwch chi i gwrdd â ffrindiau hen a newydd ac yn ddal i fyny gyda'r newyddion.

Mae croeso i myfyrwyr sy'n dysgu BSL i ymuno drwy'r bore.
Croeso mawr i bawb!

Clwb Byddar Rhyl

Yn cyfarfod ar 1af a'r 3ydd dydd Llun o bob mis yn Hafan Deg, Grange Road, Y Rhyl O 07:00yh I 10:00yh
Fydd swyddog Cymorth Cymunedol NWDA a'r gael a'r gyfer penodiadau.

Clwb Coffi Byddar Sir Ddinbych

Yn cyfarfod bob prynhawn Gwener 2:00yh tan 4:00yh yn Hafan Deg, Grange Road, Y Rhyl.
Bydd Swyddog Cymorth Cymunedol NWDA a'r gael ar gyfer penodiadau.

Clwb Byddar Yr Wyddgrug

Mae'n cyfarfod yn Swyddfeydd FLVC, Corlan, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug
Bob dydd Mercher o 10yb tan 12 hanner dydd
A Drovers Arms, Ffordd Dinbych, Yr Wyddgrug - nos Wener 7:30yh

Clwb Byddar Wrecsam

Canolfan Ieuencid Fictoria, Hill Street, Wrecsam, LL18 1SN
Dydd Iau Bore Coffi o 10yb.

Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr e-fwletin o reidrwydd barn NWDA ond y rhai y cyfrannwr.

Os ydych ddim am dderbyn e-fwletinau bellach, e-bostiwch info@deafassociation.co.uk a theipio "unsubscribe e-bulletin" yn y blwch pwnc.

Bydd eich cyfeiriad e-bost yn cael ei dynnu oddi ar ein rhestr bostio.

Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru

77 Ffordd Conway, Bae Colwyn, LL29 7LN

E-bost: info@deafassociation.co.uk Gwefan: www.deafassociation.co.uk

Ffacs: 01492 532615 SMS 07719410355

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Rhif 2959589 - Rhif.1048017 Elusen Gofrestredig